Cofnodion Cyngor Cymuned Llanbedr 6.6.24 am 7.30 Neuadd Llanbedr DRAFFT

Yn Bresennol ydoedd

Cadeirydd Jane Taylor Williams, Eirwyn Thomas, Helen Johns, Annwen Hughes, Luise Vassey,

Nia Jones, John Evans, Robin Ward, Gwynfor Owen. Kevin Titley.

Felly Cyngor llawn.

Datgan Buddiant – dim I'w ddatgan

Derbyn Cofnodion y cyfarfod diwethaf fel rhai cywir ond bod angen newid cymal am gais cynllunio Plas Gwynfryn – safle carafan I ddweud "bod yr enforcement notice wedi cael ei dynnu'n ol.".

Adroddiad Cyllid Misol

Adroddiad Ebrill – gwnaethpwyd y taliadau canlynnol

Clerc £1060.06

HMRC £133.40 talu mis mai efo siec)

J.T.Thomas £60.00

Insurans £517.76

Cymru 1 £302.40

Delyth Williams £40

Rhent Neuadd £10

Iron Designs £250

Wedi derbyn y presept o £10500

Charges bank hefyd o £5.00

Yn y banc diwedd Ebrill ydoedd £15806.07 - yn unol a'r spread sheet.

Anfonebau Mis Mai – I'w talu yn awr fel a ganlyn

Gwaith Y fynwent a Never Cut ychwanegol £620

CCF – am byst a weiren ffensio £83.25 + TAW o £16.65 (wedi talu hwn)

Neuadd £20.00

Torri Fynwent £400 (Gwaith am 2 fis o dyfiant)

Parish Online £90.00 cynnwys taw

Delyth Williams £40.00

Cymeradwyuo talu y rhain

Balans yn y banc yn £26160.77 yn uno lar taflen spread sheet.

ADRODDIAD Archwiliad Mewnol

Wedi ei gwblhau Mai 2024

- Methiant I ddiweddaru Rheolau ariannol a rheolau sefydlog a system taliadau ar lein.
- Methiant I gael cadarnhad ffurfiol o wrthod lwfansau. Er bod e byst wedi eu derbyn.

  Wedi ail edrych ar reoliadau y Cyngor yn y cyfarfod , a'u derbyn. Wedi llunio polisi bancio ar lein. Nodwyd bod angen 2 I gymeradwyuo y taliadau, ac I anfon wedyn at yr un sydd yn cael gwneud y taliadau.

  Angen ail edrych ar y polisiau eto yn unol a rhai Un Llais Cymru. Gwneir hyn cyn mis Medi
  Hefyd edrych ar sut I gael cadarnhad ffurfiol o hawlio lwfans.

  Gosod Hysbysiad o'r Archwiliad ar y bwrdd hysbysebu 7.6.24
  Arwyddo y ffurflen flynyddol gan y Clerc a'r Cadeirydd.

  Rheoli Mewnol
  Nodwyd hefyd y bydda o fantais cael ffurflen bwrpasol ar gyfer hyn, fel bod modd cofnodi ym mhob cyfarfod – rheoli risg, asedau, archwiliadau etc.
  Y Clerc a Cadeirydd am lunio dogfen I'w chymeradwyuo erbyn cyfarfod nesaf.

  Y Clerc I baratoi pecyn yn barod ar gyfer Archwiliad Allannol.

  MATERION Eraill y Cyngor.
  1. Y Fynwent.

Nododd y Clerc wedi iddi wneud archwiliad yn ddiweddar ar y Fynwent bod cryn waith angen yma –

Brigyn angen ei dorri, tocio gwrych, iddew, chwyn, mwsogl ar y llwybr.

Pasiwyd I gael pwyllgor safle 10.6.24 am 6.30

2 Cae Chwarae – nad yw'r Gwaith paentio offer a atgyweirio matiau wedi ei wneud gan G.L.Jones. Angen hysbysu nhw o hyn.

3. Cynhaliwyd cyfarfod yn y Neuadd ar y 4.6.24 parthed gwelliannau ar gyfer datblygu gwelliannau trafnidiaeth Llanbedr – adborth gewithdy 2.

Mynegodd JTW bod y gweithdy yma wedi bod y gora hyd yma. Deall y broblem bod yn rhaid I WSP fynd tros hen dir, gan mae hyn oedd yn ofynol gan y Llywodraeth. Hyn wrth gwrs yn rhwystredig.

Yr ennillion cyflum – yn dal I gael y cysgodfannau bws. Er bod yna gwyn wedi dod gan reolwyr y Victoria parthed y cysgodfan gyferbun a'r Vic. Maent bellach wedi cyfeirio y mater at Robinsons

I drafod gyda Cyngor Gwynedd.  AH yn cyfaddef y dylid fod wedi eu gwahodd I'r cyfarfod safle beth amser yn ol.

Nododd Gwynfor Owen y bydd unrhyw ohebiaeth ar gael ar wefan Cyngor Gwynedd.  Felly nid oes raid I unigolion gwyno nad ydynt yn derbyn unrhyw wybodaeth gan y Cyngor Cymuned.

Bydd cylchlythyr yn cael ei anfon allan hefyd drwy e bost.

Hwnnw fydd y Cyngor Cymuned yn ei rannu a nid y wybodaeth sydd gan y Clerc .  Hwnnw braidd yn anodd ei ddeall – termenoleg anodd a dryslud.

Pasiwyd nad oedd angen llenwi yr holiadur fel Corff gan bod gan bawb eu sylwadau a'u barn personnol.

4. Cyfarfod dros Teams 10.6.24

Bod y cyfarfod wedi cael ei drefnu gan Gwynfor Owen rhwng TFW a Cyngor Gwynedd a bydd Ken Skates MS  Ysg Cabinet I'r Gogledd a TFW yn bresennol mewn cyfarfod yn Wrecsam, a bod modd cael cyswllt ar Teams.

Bod J.T.W.a RW a KT am fynychu y cyfarfod, a bod y Clerc, Eth a LV am barhau gyda cyswllt we.

Gan obeithio y bydd o fantais I ardal Ardudwy.

Son am y gwelliannau a'r ffordd yn Llanbedr a hefyd y toriadau I'r rhwydwaith trenau, sydd yn andderbynniol.

5. Llwybrau Cyhoeddus

*Er bod tendrau I fod I ddod I law erbyn Ebrill, ni chafwyd dim ymateb.  Anfon eto at 2 ymgymerwr.

* Angen trwshio giat bont coronation – llwybr arfordir

* Torri llwybr arfordir – llwybr at y rheilffordd Talwrn Bach

* Giat ar lwybr Coed Aberartro – Glyn Artro wedi torri.  Bod Eth am ei gwaredu.

* Dim giat ar bont Glyn Artro.

Nodwyd y diffygion hyn ac anfon ymlaen at Gwyn Evans – adron llwybrau Cyngor Gwynedd.

Pwy sydd berchen y tir o amgylch y Dam - ? Ble mae terfyn Coed Cadw?

Angen rhoi hysbysiad ar y wefan a fb yn gofyn yn garedig a fyddai tirfeddiannwyr yn gallu helpu gyda clirio llwybrau ar eu tiroedd – methu cael rhai sydd yn brofiadol gyda ticed defnyddio strimmer ac insurans perthnasol, a costau uchel.

6. Defibrillator –  Adroddodd RW bod y padiau a batteries wedi cael eu hadnewyddu ac yn gyfredol tan Medi 2025 . Nidy w yn derbyn e byst gan Awdurdod Paramedics er ei fod yn warchodwr cofrstredig bellach.  Nododd hefyd bod y cas wedi cancro a bydda angen ei newid.
   Pasiwyd bod hwn yn cael ei brisio o fewn y gyllideb diwedd y flwyddyn.  Tua £600 am un polycarbonate.
7. Adroddiadau Cyngor Gwynedd

Adroddiad Cynghorydd Annwen Hughes

1. Coeden ger Ty Mawr dal heb ei thorri.
2. Bydd rhwydwaith ffyrdd yn cael eu cau yn y mis nesaf oherwydd Gwaith gan Open Reach.
3. Bod gwelliant wedi ei wneud I'r ffordd gyferbun Wenallt. Hefyd ffordd Sarn Hir a gyferbun Lismore.
4. Y car yn dal I barcio ar y ffordd ger Capel Bach.
5. Nifer o dyllau ar ffordd Bryn Deiliog – ger rhif 1 a 2
6. Ffordd Garth Goch heb ei gwneud.
7. Datgan y bydd Cyngor Gwynedd yn gwynebu nifer fawr o doriadau yn y dyfodol. Bydd disgwyl I'r Cynghorau gymerud mwy o ddyletswyddau!!

Adroddiad gan Gwynfor Owen

1. Mwy o doriadau mewn gwasanaethau.
2. Mynegodd bod ffyrdd yng Ngwynedd parthe pot holes yn well nag mewn ardaloedd eraill.
3. Problemau efo atgyweirio 1 Ger y Llan. Disgwyl bydd tenant I mewn yn fuan cyn diwedd Gorffennaf.
4. Cyfle I roi pleidlais dros Ambiwlans Awyr I aros yn Dinas Dinlle – ar y we. Cyngor Gwynedd yn cefnogi hyn a Betsi Cadwaladr. Angen mwy o enwau ar y ddeiseb cyn y bydd yn gallu ei gyflwyno I'r Llywodraeth yn Nghaerdydd.
5. Torri yn ol ar wasanaethau trenau . Cyngor Gwynedd yn gefnoogol I gadw y gwasanaeth fel ag yr oedd. Drwy neud y newidiadau bod TFW yn arbed £700000.

Nodwyd bod rhaid cadw record o faint o bobl sydd yn defnyddio y trenau ar wahanol adegau.

Hefyd nad yw y mwyafrif yn codi ticed ac yn talu.

Disgwyl bydd 4 carrage tren a 2 conductor yn ystod yr haf.

8.Adroddiadau Unrhyw Bwyllgorau Eraill

Cyfarfod Un Llais Cymru – Eirwyn a Jane wedi mynychu hwn yn ddiweddar.

Materion a drafoodwyd odd taliadau dros y we, a hefyd yr angen I dir feddiannwyr helpu gyda cadw llwybrau yn glir.

9.Unrhyw Fater Arall

a) Cyfieuthu dros zoom – Nododd y Clerc ei bod yn ceisio ail drefnu y gwasanaeth yma.
b) Ambiwlans Awyr – pawb I lenwi'r ddeiseb
c) 20 milltir yr awr ar gyfer Llanbedr- - angen newid y 20 milltir – wel ymestyn hyd at Cambrian Clearance I'r de o Lanbedr, a ffordd Mochras I gychwyn dros y Rheilffordd Talwrn Bach. Nododd GO bod nifer y damweiniau wedi lleihau oherwydd y broses yma.
d) RW – problem Japanese knotweed – Ffordd Mochras a gyferbun Awelfryn. (Cyngor Gwynedd)
e) LV – clicied giat pont coronation wedi torri. (Cyngor Gwynedd)
f) KT – angen torri llwybr at Talwrn Bach – llwybr arfordir. (Cyngor Gwynedd)
g) JE – angen torri mwy ar ochr ffordd ger Capel Gwynfryn
h) Eth – mynegi bod problem gyda carffosiaeth yr Ysgol a wal rhwng y Neuadd ar Ysgol.

Tud 5

JTW -Yr arwydd man pasio dal heb gael ei wneud ger Cypla. (Cyngor Gwynedd)

Tud 5.

i) Eiddew ar y bont.

j) Gwneud taliadau I'r Ysgol Feithrin . £1500 wedi neilltuo iddynt yn y gyllideb – gwneud taliad 3 gwaith.
Yn awr, wedyn mis medi a wedyn diwedd rhagfyr.